


ASTUDIAETH ACHOS: CYMDEITHAS BÊL DROED SIR BRIMINGHAM

Author: Amanda Bennett, FairPlay Ltd

*sportwales
chwaraeoncyfmsu*





Sefydlwyd Cymdeithas Bêl Droed Sir Birmingham (BCFA) yn 1875 a dyma'r corff rheoli ar gyfer pêl droed ledled Gorllewin Canolbarth Lloegr a Sir Warwick. Mae ganddi fwy na 1200 o glybiau, 4600 o dimau, 1500 o Ddyfarnwyr Cofrestredig a hyfforddwyr a gwirfoddolwyr dirifedi oddi mewn i'w ffiniau.

Yn gwmni cyfyngedig trwy warant, mae gan BCFA Fwrdd Cyfarwyddwyr a hefyd Cyngor o gynrychiolwyr sy'n cael eu henwebu o bob fformat o'r gêm sy'n dod o dan nawdd y Gymdeithas. Yn 2013, cafodd ei Herthyglau Cwmni eu hadolygu er mwyn gallu ailstrwythuro'r Bwrdd, yn benodol i benodi Cyfarwyddwyr Anweithredol. Wedyn, ar ôl profi manteision y newidiadau, adolygodd BCFA ei Herthyglau ymhellach yn 2018, er mwyn ehangu'r sylfaen o sgiliau ar y Bwrdd drwy recriwtio'n agored ar gyfer chwe lle ar y Bwrdd.

Mae'r Prif Weithredwr a Chadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor yn gweithredu mewn rôl ex-officio ac mae'r Erthyglau'n galluogi cyfethol hyd at ddau aelod Bwrdd ychwanegol (ddim yn pleidleisio) sydd wedi sicrhau bod y Bwrdd yn gallu cael sgiliau a gwybodaeth arbenigol.

Ceir rhestr o'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad sy'n ofynnol ar Fwrdd y BCFA ac fe helpodd y rhain gyda ffurfio'r chwe phenodiad. Un o'r meysydd blaenoriaeth yw cynhwysiant ac mae BCFA wedi newid ei phroses benodi'n radical wrth iddi geisio cael Bwrdd mwy amrywiol oedd yn adlewyrchu'r tirlun pêl droed yn well. Y rhesymeg dros hyn oedd yr amrywiaeth o fanteision perfformiad fyddai'r Bwrdd a'r sefydliad yn elwa ohonynt, a'r dyhead i adlewyrchu'n well y cymunedau mae BCFA eisiau eu cyrraedd, yn enwedig y rhai nad oeddent yn ddefnyddwyr.



“
**THE WAY IN WHICH
PEOPLE PLAY FOOTBALL
HAS CHANGED
RADICALLY IN
RECENT YEARS WITH
WOMEN AND GIRLS**

PAM OEDD RAID I CHI NEWID STRWYTHUR EICH BWRDD?

Cyn 2013, roedd y Bwrdd yn cynnwys unigolion wedi'u hethol gan y Cyngor oedd, yn ei dro, wedi'i ethol neu ei enwebu gan glybiau a chynghreiriau oedd yn aelodau. Nid oedd aelodau'r Bwrdd yn adlewyrchu'r chwaraewyr, y gwirfoddolwyr na'r ddemograffeg yn y rhanbarth, a chawsant eu dewis o gronfa gymharol fechan o bobl. Er nad oedd BCFA yn wynebu argyfwng, roedd y Bwrdd yn cael ei weld fel Bwrdd goddefol, yn cynnig cyfraniadau neu heriau cyfyndedig i'r weithrediaeth. Roedd y llyfdd ar y Bwrdd yn cael eu hystyried fel rhai caeedig ac roedd y diffyg amrywiaeth yn golygu nad oedd llawer o wybodaeth yn sail i benderfyniadau am sut ddyldid cyflwyno pêl droed a sut i gynnal busnes llwyddiannus.

Mae'r ffordd mae pobl yn chwarae pêl droed wedi newid yn radical yn ystod y blynyddoedd diwethaf gyda merched a genethod, 5 bob ochr a fformatau timau bach eraill, darpariaeth anabled, futsal, pêl droed yn cerdded, a fformatau hyblyg amrywiol nawr i'w gweld ochr yn ochr â'r gêm 11 bob ochr draddodiadol i ddynion a merched. Os oedd BCFA eisiau datblygu'r gêm a denu cyfranogwyr newydd, roedd rhaid wrth gynllun tymor hir gyda dulliau gwahanol o weithredu, gwybodaeth newydd, persbectif amrywiol, synnwyr busnes ac arloesi ar lefel Bwrdd law yn llaw â sgiliau a gwybodaeth y tim gweithredol.

Penllanw newid arweinyddiaeth BCFA oedd y Bwrdd yn gofyn i'r FA gynnal adolygiad allanol o'r busnes yn ei gyfanrwydd. Ar ôl ei gwblhau, gwelodd y Bwrdd fod angen newid radical a gweithredodd yr argymhellion, oedd yn cynnwys moderneiddio'r Erthyglau Cwmni a rheolau aelodaeth a phrosesau gwneud penderfyniadau BCFA, a hefyd newidiadau i arweinyddiaeth y gweithlu.

Yn 2015, ar ôl consensws i barhau i newid, cytunodd yr aelodau i hysbysebu am dri Chyfarwyddwr. Cafwyd 20 cais, gan gynnwys rhai gan aelodau presennol y Cyngor. Dewiswyd y tri aelod o'r tu allan i'r Cyngor, gan gynnwys dwy fenyw (am y tro cyntaf yn hanes y Gymdeithas o 140 o flynyddoedd). Gwnaeth y Cyfarwyddwyr wahaniaeth clir i'r Bwrdd gyda gwybodaeth, safbwyntiau, syniadau a phersbectif newydd, a chytunwyd i ymestyn nifer y ceisiadau agored, gan ei fod wedi profi mor llwyddiannus.

Cyhoeddwyd y Cod ar gyfer Llywodraethu Chwaraeon yn 2016 ac er nad oes raid i BCFA gydymffurfio â gofynion y Cod, cytunwyd mewn egwyddor ar y pryd y byddai gweithio tuag at y model arfer gorau hwn yn werthfawr i'r sefydliad. Gallai nid yn unig wella perfformiad sefydliadol y Bwrdd ond hefyd sicrhau ffrydiau cyllido newydd o bosib. Arferai'r Cyfarwyddwyr arwain sefydliad pêl droed ond roeddent yn sylweddoli nawr eu bod yn arwain busnes pêl droed.



MAE BYRDDAU AMRYWIOL A'R SEFYDLIADAU MAENT YN EU GWASANAETHU'N PERFFORMIO I SAFONAU UWCH

SUT AETHOCH CHI ATI I WNEUD Y NEWIDIADAU HYN?

Aeth BCFA ati i adolygu'r Erthyglau Cwmni ymhellach yn 2018 er mwyn cael sgiliau ac arbenigedd o sylfaen lawer ehangach. Hefyd roeddent yn cydnabod bod Bwrdd mwy amrywiol yn bwysig, nid dim ond oherwydd bod BCFA yn gwasanaethu cymuned amrywiol yn ddemograffig, ond oherwydd ei bod yn hysbys bod Byrddau amrywiol a'r sefydliadau maent yn eu gwasanaethu'n perfformio i safonau uwch, ac yn enwedig gan fod BCFA yn Gymdeithas Bêl Droed Sirol perfformiad uchel. Roedd yn bwysig ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys aelodau, clybiau, cynghreiriaid, aelodau presennol y Cyngor a phartneriaid strategol. Lluniodd BCFA achos busnes oedd yn sicrhau bod pawb yn cael eu hystyried yn y strwythur newydd, yn enwedig yr unigolion hynny oedd wedi ymroi eu bywydau i bêl droed, er enghraifft, Is Lywyddau Oes ac Aelodau Anrhydeddus. Cymeradwywyd yr Erthyglau yn 2018 a bellach maent yn caniatáu ar gyfer y canlynol:

- Cyflwyno Panel Dewis sy'n llunio rhestr byrion o'r ymgeiswyr gorau'n seiliedig ar eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad. Defnyddiodd BCFA broses CV 'ddall' gan ddileu unrhyw ragfarn anymwybodol o bob cais a chanolbwyntio yn unig ar sut gallai ymgeiswyr ychwanegu gwerth at y sefydliad yn seiliedig ar sgiliau a gwybodaeth a dim arall.
- Penodi chwe Cyfarwyddwr Anweithredol yn agored gyda chyfyngiadau tymor amrywiol – gall unrhyw un wneud cais am y llyfdd hyn, gan gynnwys aelodau unigol, aelodau'r Cyngor ac ymgeiswyr o'r tu allan i BCFA. Mae hyn yn sicrhau gwybodaeth gytbwys (pêl droed, cyllid, adnoddau dynol, masnachol, cynhwysiant,

diogelu, cyfleusterau a marchnata) a sgiliau er mwyn gwneud penderfyniadau doethach.

- Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor i wasanaethu fel Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd. Mae hyn yn cael ei adolygu ac mae BCFA yn ystyried penodi'r Cadeirydd yn dyfodol drwy broses ymgeisio agored.
- Cyfethol unigolion sydd â gwybodaeth a sgiliau penodol. Ar hyn o bryd, y rhain yw cyn Gadeirydd y Cyngor leuenctid a rhywun sydd â phrofiad o sefydliad elusennol clwb pêl droed proffesiynol, ond gall y bwrdd sicrhau ei fod yn cynnal lefelau o amrywiaeth ac arbenigedd mewn unrhyw faes drwy gyfethol.
- Tymhorau gwasanaethu yn unol ag arfer gorau sy'n golygu na chaiff unrhyw unigolyn wasanaethu am fwy na thri thymor o dair blynedd. Mae hyn yn sicrhau bod y Bwrdd yn cael sgiliau a gwybodaeth newydd yn gyson, ond mae gan unigolion ddigon o amser i greu effaith. Sylwyd bod pethau'n fwy ffres yn ystafell y Bwrdd pan mae newydd-ddyfodiad yn ymuno ac mae hyn yn cael ei weld fel effaith positif y cyfyngiadau ar dymhorau gwasanaethu.

Nid oedd cyflwyno polisi dewis 'dall' fel rhan o'r broses recriwtio o angenrheidrwydd yn gwarantu bod grŵp mwy amrywiol o ymgeiswyr yn gwneud cais am bob rôl ar y Bwrdd felly targedodd BCFA grwpiau a chymunedau gyda hysbysebion am lefydd ar y Bwrdd. Mae hyn wedi cael effaith positif o ran ymgeiswyr a chan nad oedd unrhyw wybodaeth bersonol ar gael yn y cam llunio rhestr fer, roedd yr ymgeiswyr a ddewiswyd ar gyfer cyfwelliad yn adlewyrchu'r gêm yn llawer gwell, yn ogystal â'r cymunedau newydd a phresennol ac anghenion y busnes.



THE INITIAL SIX MONTHS HAS BEEN A STEEP LEARNING CURVE FOR ALL BUT WE ARE ALREADY SEEING AREAS OF RESPONSIBILITY BEING DEVELOPED BY EACH DIRECTOR.

PA WAHANIAETH MAE'R NEWIDIADAU HYN WEDI'U GWNEUD I'CH

Mae'r broses, yn enwedig y tryloywder a'r egni am gyfres benodol o sgiliau, wedi golygu bod 38% o'r Bwrdd bellach yn fenywod a 25% o gefndiroedd DALIE. Hefyd, roedd mwy na 75% o'r ymgeiswyr dan 50 oed. Nid yn unig mae'r Bwrdd yn llawer mwy amrywiol nawr, ond mae ansawdd cyfraniad y Cyfarwyddwyr a'r ymgysylltu yn llawer gwell ac mae gan bawb wybodaeth dda am chwaraeon a/neu bêl droed a dealltwriaeth dda o'r maes, yn ogystal â lefel uchel o synnwyr busnes.

Mae'r Bwrdd newydd yn herio llawer mwy mewn ffordd adeiladol ac mae wedi cael effaith bositif eisoes ar gyfarfodydd a phenderfyniadau'r Bwrdd. Y ffordd orau i ddisgrifio hyn yw cael mynediad cyson at gyngor ymgynghorol parhaus, eithriadol ac am ddim. Gyda mwy o ferched a phobl o gymunedau DALIE ar y Bwrdd, mae BCFA yn gallu cael gwybodaeth a fyddai wedi bod yn ddifffygol gyda'r Bwrdd oedd wedi'i ethol yn flaenorol.

Mae'r chwe mis cyntaf wedi bod yn gyfnod o ddysgu llawer i bawb ond rydyn ni eisoes yn gweld meysydd cyfrifoldeb yn cael eu datblygu gan bob Cyfarwyddwr. Yn benodol, mae Grŵp Cyngori ar Gynhwysiant BCFA wedi cael ei ailwampio i fod yn gorff dan arweiniad gweithredol gyda Chyfarwyddwr yn arwain ac yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd a'r Cyngor. Mae BCFA yn gallu sicrhau bod gan aelodau'r Bwrdd y sgiliau a'r diddordebau gorau posib yn awr, ochr yn ochr â rhai'r gweithlu, gan sicrhau dull 'un tim' cyflawn o weithredu. Mae'n canolbwyntio ar ddangosyddion perfformiad allweddol yr FA a chyfrannu syniadau gan eraill a chynlluniau cyfathrebu a chyflawniadau ledled y sefydliad.



PA EFFAITH MAE STRWYTHUR NEWYDD Y BWRDD WEDI'I CHAEL AR Y SEFYDLIAD?

Mae effaith yr amrywiaeth a'r sgiliau newydd wedi cael ei theimlo ar unwaith gyda BCFA yn arbed arian oherwydd cyngor ariannol o safon uchel. Hefyd, mae'r Cyfarwyddwyr wedi agor eu rhwydweithiau ar gyfer y sefydliad, gan helpu i wneud cysylltiadau â chyrff masnachol, y sector cyhoeddus, a chyrff cymunedol. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosib o dan y Bwrdd 'caeedig' oedd yn cael ei arwain gan y Cyngor.

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi mynd ati i geisio creu perthnasoedd gyda staff ac, os yw hynny'n briodol, cefnogi prosiectau a ffrydiau gwaith. Mae hyn wedi creu cyswllt cadarnach rhwng y staff a'r Bwrdd, a hefyd wedi galluogi i BCFA ddefnyddio'r arbenigedd sydd wedi'i ddewis yn ofalus mewn meysydd busnes a phél droed allweddol.

Mae'n bwysig nodi na fyddai unrhyw rai o'r newidiadau hyn wedi bod yn bosib heb arweinyddiaeth BCFA, yn benodol, y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd, ac uwch staff BCFA. Oni bai fod y rhain wedi ymrwymo i welliant a chynllunio'r newidiadau llywodraethu, a gweithredu argymhellion cychwynnol yr FA, ni fyddai wedi bod yn bosib. Sicrhaodd cyswllt gan aelodau'r Cyngor a gwirfoddolwyr uchel eu parch ei bod yn haws creu Bwrdd cytbwys, medrus a chynhwysol sy'n cael effaith uniongyrchol yn awr ar weledigaeth, cenhadaeth ac amcanion y sefydliad. Hefyd, mae llawer mwy o hyder ymhlith rhanddeiliaid, yn enwedig buddsoddwyr a phartneriaid fel y Gymdeithas Bêl Droed, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol, a fydd yn elwa i gyd o'r gêm ei hun a'r cyfranogiad yn gyffredinol.



sportwales
chwaraeon cymru

SPORT WALES
Sophia Gardens, Cardiff CF11 9SW

☎ 029 2033 4972
✉ 0300 300 3111
🌐 www.sport.wales